Cyngor Cymuned Llandwrog
Community Council

Cofnodion Cyfarfod y Cyngor
Council Minutes

18 Rhagfyr 2018 / 18 December 2018

Cyngor Cymuned Llandwrog Community Council

Cofnodion y cyfarfod o Gyngor Cymuned Llandwrog a gynhaliwyd Nos Fawrth, 18 Rhagfyr 2018 yn Canolfan y Fron.

Minutes of the Full Council Meeting held Tuesday evening, 18 December 2018 at Canolfan y Fron.

Yn bresennol / Present - 6 aelod / 6 members

Yn cynrychioli Ward y Fron – Representing the Ward of Fron
Cyng. Gwyn Owen Jones;

Yn cynrychioli Ward Carmel – Representing the Ward of Carmel
Cyng. Bryn Williams

Yn cynrychioli Ward Y Groeslon – Representing the Ward of Y Groeslon
Cyng. Alun Wyn Jones; Cllr. Eddie Willcox; Cyng. Hywel J Owen; Cyng. Gerwyn Owen;

Yn cynrychioli Ward Llandwrog a Dinas Dinlle - Representing the Ward of Llandwrog & Dinas Dinlle
Dim cynrychiolaeth / No representation

Hefyd yn bresennol / Also in Attendence-

David Roberts, Rheolwr Gweinyddol a Chyllid y Cyngor / Council's Administartive & Finance Manager
Huw Roberts , Cyfieithydd / Translator
Mair Edwards, Grwp Cynefin – eitem 4 yn unig / item 4 only

18-12-01 **1 Croeso'r Cadeirydd / *Chairman's Welcome***

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd. Gwyn Owen Jones.
Mynegodd cydymdeimlad gyda Cyng. David C Davies ar farwolaeth ei dad yn ddiweddar.
Roddwyd air o ddiolch i Huw Roberts, Cyfiethydd. Hwn ei gyfarfod olaf gan ei fd yn ymddeol ar 31 Rhagfyr.

Aeth ymlaen at y rhaglen

The meeting was opened by the Chairman, Cllr.Gwyn Owen Jones. He sympathised with Cllr. David C Davies and his family on thir recent bereavement. He also wished Huw Roberts, the translator, all the best in his retirement. This will be his last meeting translating for this Council
He proceeded on to the evening's business

18-12-02 **2 Y mddiheuriadau am Absenoldeb / *Apologies for Absences***

Cyng. Clive Bayley. Cyng Alan Patterson; Cyng. Helen Hughes. Cyng. David C davies

---

18-12-03 **3 Datgan Buddiant Personol Neu Fuddiant sydd yn Rhagfarnu gan Aelodau ar y Unrhyw Eitem ar y Rhaglen - Adran 51 Deddf Llywodraeth Leol 2000 - *To Receive disclosures of Personal and Prejudicial Interest by Members on any Items on the Agenda - Section 51 Local Government Act 2000***

David Roberts, Rheolwr Gweinyddol a Chyllid – Eitem Pensiwn y Clerc cofnod 18-12-16.

David Roberts, Administration & Finance Manager- Clerks Working Group minute ref 18-12-16.

Gerwyn Owen, - Eitem Eisteddfod Genedlaethol 2021 – ei gymer yd awdur y llythyr gan Cyngor Tref Caernarfon. His wife is the Town Clerk for Caernarfon

Alun Wyn Jones – Awdur llythyr Grwp Diffribiliwr Y Groeslon. Author of the letter from the Defribilator Group

---

18-12-04 **4 Cynnig i Mair Edwards Rheolwr Mentrau Cymuned ymweld y Cyngor Cymuned i drafod "Prosiect Iechyd a Mwy Dyffryn Nantlle" / Invitation to Mair Edwards Manager of "Mentrau Cymuned" to visit Community councils to discuss the project "Dyffryn Nantlle Health & More"**

Croesawyd Mair Edwards o Grŵp Cynefin i'r cyfarfod gan y Cadeirydd.

Cafwyd diweddariad o'r gwaith sydd wedi ei gyflawni gan y Grŵp yn yr wyth mis blaenorol

Grŵp Cynefin a Grŵp Iechyd yn cydweithio oherwydd yr awch a'r dymuniad yn yr Ardal i sefydlu Canolfan Iechyd yn yr ardal. Astudiaeth dichonolrwydd wedi ei gomisiynu. Penodwyd ymgynghorwyr. Ugain o ran deiliaid yn rhan o'r broses gychwynnol

Y weledigaeth –

- sefydlu campws iechyd i Ddyffryn Nantlle
- sefydlu gwaith iechyd integredig

Bwrdd Prosiect wedi ei sefydlu sef Grŵp Cynefin , Cyngor Gwynedd a Bwrdd Iechyd.

Bwrdd Iechyd sydd yn gyfrifol am ddatblygu'r Cynllun Busnes ac ymdrin yr ochr ariannol

Pedwar ffrwd i'r Bwrdd Prosiect

1) Tai a Gofal Cymdeithasol - angen tai yn lleol, angen fwy o fyngalos, angen gofal preswyl, 20 o lefydd ym Mhlas Gwilym gweld yr angen yn cynyddu o 40
2) Gofal Iechyd a Cymdeithasol - ymgynghorwyr yn edrych ar y ffrwd hon i adnabod y gofyn
3) Dylunio - tri safle addas wedi ei adnabod ym Mhenygroes , iard Express Motors, tir ger Pant Du a thir ger y Gylchfan
4) Cymunedol - strategaeth gyfathrebu, adnabod anghenion y 3ydd sector, cadw'n iach - nid pobol sâl yn unig fydd pwrpas y campws iechyd

Datblygiadau eraill - Bara Caws yn edrych ar safle'r Fic. Angen pawb yn y gymuned i gyd-weithio. Angen cytuno ar strategaeth adfywio erbyn diwedd Mawrth 2019. Wedi llwyddo i gael grant cychwynnol o £50,000 i gyflawni "site appraisal".
Cyfarfod nesaf o'r Grŵp yn Chwefror. Croeso i unrhyw aelod o'r Cyngor fod yn bresennol.

Sylwadau Aelodau

BW - a fydd pob meddyg ym Mhenygroes felly ar un safle
ME - bydd- yn annibynnol ond ar un safle

AWJ – beth fyddai cynrychiolaeth o'r Cyngor hwn yn ei gael?
ME - yn annog cynrychiolaeth - angen cynrychiolaeth o bob pentref

AWJ – angen ystyried diffyg cludiant cyhoeddus
ME - cytuno, prosiect trafnidiaeth gymunedol ar gychwyn

GO – ydi'r cynllun yn cwmpasu Rhostryfan gan fod y feddygfa yno wedi cau yn ddiweddar
BE - yn ymweld â Chyngor Llanwnda ac am godi'r mater yno

AWJ - angen ystyried trigolion Dinas Dinlle a Llandwrog a diffyg cysylltiadau bysus i Benygroes

Diolchwyd i Mair Edwards am y cyflwyniad gan y Cadeirydd. Yn sicir 'roedd yr aelodau yn ddiolchgar am y diwedariad a mynegwyd yn dda iddi gyda'r prosiect.

18-12-05 **5 Derbyn Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol a gynhaliwyd 19 Tachwedd 2018 fel Rhai Cywir / To Confirm the Minutes of the Previous Meeting held on the 19 November 2018 as a True Record**

Awdurdodwyd y Cadeirydd gan y Cyngor i arwyddo'r cofnodion fel rhai cywir.
The Council authorised the Chairman to sign the minutes as a true record.

18-12-06 **6 Materion yn Codi o'r Cofnodion / Matters Arising from the Minutes**

18-12-07 **Ymgysylltu Gyda'r Gymuned / Consulting With The Community**

Adroddwyd gan y Cadeirydd-

- Amlenni wedi cyrraedd gan y Post Brenhinol
- Disgwyl drafft o'r llythyr gan Caryl Ynyd a 'r holiadur terfynol i'w dreialu.
- Bydd y Rheolwr yn galw cyfarfod yn gynnar ym mis Ionawr 2019 I ddod a phopeth i derfyn a phenderfynu ar amserlen derfynol.

Penderfynwyd derbyn y wybodaeth.
Resolved to note the information

18-12-08 **Cwn Rhydd / Stray Dogs**

Adroddwyd gan y Rheolwr ei fod wedi cysylltu gyda John Griffiths o Gymdeithas y Porwyr a Heddlu ynglŷn â phroblem

Cymdeithas y Porwyr yn ymwybodol o'r broblem. Achosion o gwn yn amharu ar ddefaid yn Cilgwyn Y Foel a Chapel Bryn. Heddlu wedi cadarnhau fod yna ddau ddigwyddiad wedi bod yn ddiweddar a chymerwyd camau priodol

Penderfynwyd dod a'r mater i sylw Dion Roberts sydd wedi ei benodi gan Parc Cenedlaethol Eryri I weinyddu prosiect Uwch Gwyrfai.

Resolved – to bring the matter to the attention of Dion Roberts ho has been appointed by the National Park to administer the Upper Gwyrfai Project

18-12-09 **Delwedd Dyffryn Nantlle**

Trafodwyd y mater fel y nodwyd ar y rhaglen.

Penderfynwyd derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd 8 Tachwedd 2018 heb sylwadau
Resolved to accept the minutes of the meeting held 8th November 2018 without comments

18-12-10 **Llifogydd Teras Dyffryn a Cae Sarn / Flooding Dyffryn Teraace & Cae Sarn Area in Groeslon**

Adroddwyd fod y Rheolwr wedi cysylltu unwait, h eto gyda Swyddog o'r Adran Amgylchedd ond heb gael ymateb.

Dim ymateb gan yr Aelod Seneddol ac yr Aelod Cynulliad.

Sylwadau Aelodau-
AWJ - angen parhau i bwyso ar yr aelodau etholedig a Swyddogion Cyngor Gwynedd

Penderfynwyd parhau i bwys am ymateb gyda chopi o'r ohebiaeth i Cyng. Eric M Jones
Resolved to continue to pres Gwynedd Council for a reply and to copy County Councillor Eric Jones in the communication.

18-12-11 **Grant Tyrbeini Gwynt Dinas Dinlle / Wind Turbine Grant Dinas Dinlle**

Adroddwyd gan y Rheolwr nad oedd wedi derbyn ymateb gan Cyngor Gwynedd ynglyn sefyllfa y gronfa.

Penderfynwyd gofyn eto am y wybodaeth
Resolved – to ask again for the information

18-12-12 **Cerrig Goffa Bryn'rodyn a Brynrhos / Memorial Headstone Bryn'rodyn & Bryn'rhos Chapels, Groeslon**

Sylwadau Aelodau - Hywel J Owen yn diolch o'i galon am ymdrechion pawb i lwyddo gosod y cerrig ar y Neuadd erbyn diwnod y cofio.

18-12-13 **7 Derbyn Cofnodion Pwyllgor Cyllid a Gynhaliwyd 4 Rhagfyr 2018 To Confirm the Minutes of the Finance Committee held on 4 December 2018 as a True Record.**

Awdurdodwyd y Cadeirydd gan y Cyngor i arwyddo'r cofnodion fel rhai cywir.

The Council authorised the Chairman to sign the minutes as a true record.

18-12-14 **8 Materion yn Codi o'r Cofnodion / Matters Arising from the Minutes**

18-12-15 **Lloches Bws Cae'r Moel / Bus Shelter**

Adroddwyd gan y Rheolwr fod Aseswr Yswiriant wedi cadarnhau fod y gwaith traenio yn gymwysac y bydd y setliad yswiriant yn £2,880.19.

Ymhellach Cwmni DAC Beachcroft wedi anfon gwaith papur i'r Rheolwr I ofyn am ganiatad i gychwyn ar y gwaith o ad-enill y golled.

Nodwyd fod yr Aseswr Yswiriant yn hyderus iawn y bydd y Cyngor yn derbyn ad-daliad o'r golled.

Penderfynwyd ar y canlynol –

i) Fod y Cyngor yn derbyn pris Elfyn Ellis o £5,612.00 i gyflawni'r gwaith o ddymchwel y lloches, gwaith traenio a gosod lloches newydd (paneli) lliw glas
ii) Fod y Cyngor yn ariannu'r gwaith fel y nodwyd uchod
iii) Fod y Cyngor yn gwthio'r yswirwyr i ysgwyddo cost y traenio

iv) Fod y Cyngor yn derbyn y tebygolrwydd na fyddai yn derbyn y golled o £2,996.17 gan Gwmni Cyfreithwyr DAC Beachcroft

Resolved -

i) That the Council accepts the costs received from Elfyn Ellis for the demolition, drainage and erection of a new panelled shelter in the blue colour
ii) That the Council finances the work as noted above.
iii) That the Council insists with the insurers to include the drainage costs.
iv) That the Council notes that it may not be able to recover the loss of £2,996.17 from DAB Beachcroft Solicitors

18-12-16 **Cyllideb 2018/19 – Adolygiad Trydydd Chwarter hyd at 30 Tachwedd 2018**

2018/19 Budget - Third Quarter Review to 30 November 2018

Fe wnaeth Rheolwr Gweinyddol a Chyllid y Cyngor ddatgan buddiant ar yr eitem oedd y trafod y cynllun pensiwn ac fe adawodd yr ystafell.

Balansau fel adroddwyd ond wedi ei addasu ar gyfer yr uchod felly -

Cysoniad y Banc i 30 Tachwedd 2018 / Bank Reconiliation to 30 November 2018	
Balansau'r Banc i 30 Tachwedd/November 2018 – Balances in the Bank	(£37,141.34)
- Llai Credydwyr a Sieciau heb eu cyflwyno / Less Creditors & Unpresented Cheques	£2,149.60
+ Dyledwyr / Debtors	(£2.136.08)
Is-gyfanswm - Cyfanswm yr Arian ar 30/11/18 / Sub Total Cash at 30/11/18	**(£37,127.82**)
+ Praesept heb gyrraedd (rhan 2) / Praesept as yet not received	dim / none
Is-gyfanswm / Sub Total	**(£37,127.82**)
- Gwariant ymrwymedig i 31 Mawrth 2019 / Committed Expenditure to 31 March 2019	£36,408.12
+ Incwm heb gyrraedd i 31 Mawrth 2019/ Income due to 31 March 2019	(£4,418.09)
Is-gyfanswm / Sub Total	**(£5,137.79)**
- Llai Cronfeydd Penodol (£5,000 AWG a £1,000 Cronfa Adnewyddu Offer Cae Chwara Less Specific Funds (£5,000 in reserve & £1,000 Playing Fields Renewal Fund)	£6,000.00
Cyfanswm Gor neu (Tan) wariant y rhagwelir i 31 Mawrth 2019 Total Overspent (under) spend expected as at 31 March 2019	**£862.21**

Cronfeydd y Cyngor ar 30 Tachwedd 2018 / Specific Funds as at 30 November 201	
Arian Wrth Gefn - Polisi'r Cyngor / General Reserve Fund – Council Policy	(£5,000.00)
Cronfa Adnewyddu Offer Caeau Chwarae / Playing Fields Renewal Fund	(£1,000.00)
Cyfanswm y Cronfeydd / Total Specific Funds	**(£6,000.00)**

Cymeradwywyd y papurau ac fe'i harwyddwyd gan Gadeirydd y Pwyllgor

Penderfynwyd ar y canlynol-

i) Fod y Cyngor yn derbyn cywirdeb y balansau fel y nodwyd uchod
ii) Fod y Cyngor yn derbyn fod y gyllideb yn gorwario £862 wedi cynnwys ymrwymiad ar gost yswiriant ychwanegol (newid y polisi), cost yr actiwri ar gyfer ymuno a chynllun yr LGPS, a glanhau'r llwybrau o fwsogl.
iii) Fod y Cyngor yn nodi fod yna benawdau yn y gyllideb sydd heb ymrwymiad ond mai doeth fyddai cadw'r cyllidebau am y tro gan fod yna 4 mis o'r flwyddyn ariannol yn parhau.
iv) Fod y Cyngor yn gofyn am arweiniad pellach gan y Pwyllgor Cyllid ar oblygiadau ariannol optio mewn i'r cynllun LGPS
v) Fod y Cyngor yn gofyn am gyfarfod gyda Rhelwr Pensiwn LGPS Cyngor Gwynedd

The following was resolved -

i) That the Council accepts that the balances as noted are correct as at 30 November 2018

ii) That the Council accepts that the budget shows an overspend of £862 after committing amendments to the insurance policy, a report by the Local Government Pension Scheme (LGPS) Actuary, and to clear moss from the cemetery paths at Bryn'rodyn and Carmel,.
iii) That the Council notes that there are some budget heads without a spending commitment but retain the budget at this time as there is still 4 months until the end of the financial
iv) That the Council asks the Finance Committee for further guidance on the financial implication in opting in to the Local Government Pension Fund.
v) That the Council asks for a meeting with the Gwynedd Council LGPS Manager

18-12-17 **Yswiriant y Cyngor**

Penderfynwyd ar y canlynol
i) Fod y Cyngor yn addasu'r polisi fel y nodir uchod
ii) Fod y Cyngor yn prynu gwasanaeth proffesiynol i asesu gwerth yswiriant ar waliau blaen y mynwentydd gan gynnwys y ffensys a'r giatiau ynghyd a waliau, ffensys a giatiau y caeau pêl-droed
iii) Fod y Cyngor yn gofyn i Zurich i addasu geiriad y polisi i "Waliau Blaen y Mynwentydd , Ffensys a Giatiau"

The following was resolved -
i) That the Council makes the adjustments as noted above to the Policy
ii) That the Council carries out an assessment to ascertain the insurance value on the front walls of the cemeteries including fences and gates as well as the walls, fences and gates of the football fields.
iii) That the Council requests Zurich to adjust the wording on the policy to Cemeteries Front Walls, Fences & Gates.

---

9 Materion a Godwyd gan Aelodau / Items Raised by Members

Cyng. Eddie Willcox

18-12-18 **Mainc Cae Chwarae Y Fron / Bench for Fron Playing Field**

Adroddwyd fod Grŵp Alexandra wedi cyfarfod yn ddiweddar ac wedi dyfarnu £138 fel cyfraniad i drigolion y Fron i brynu mainc i'r cae chwarae yn y Fron.

Bydd £200 pellach ar gael yn Ebrill.

Gwnaed gynnig ganddo i'r Cyngor Cymuned dderbyn yr incwm ac i wneud y pryniant wedi derbyn y gwedill o'r arian. O ganlyniad bydd y Cyngor yn gallu hawlio'r Treth Ar Werth ar y pryniant.

Penderfynwyd cefnogi'r cynng i'r Cyngor Cymuned dderbyn yr incwm a phrynu'r fainc.
Resolved – to support the proposal that this Council keeps the contribution from the Alexander Group and purchases the bench.

Cyng. Eddie Willcox

18-12-19 **Lloches Bws Gardd Y Coleg, Carmel / Carmel Community Garden Bus Shelter**

Gofynnodd am adborth o'r cyfarfod a gynhaliwyd gyda Phwyllgor Pentref.

Adroddwyd gan y cadeirydd fod y cofnodion wedi ei drafod yn cyfarfod o'r Cyngor llawn 19 Tachwedd 2108

Gofynnwyd i'r Rheolwr anfon copi iddo.
Eglurodd y Cadeirydd nad oedd dymuniad gan y pentrefwyr i ail leoli'r lloches. " Back to Square One" felly ac i'r Pwyllgor Mynwentydd ac Asedau i ystyried y sefyllfa ac adrodd 'nol i'r Cyngor

Penderfynwyd cyfeirio'r mater i'r Pwyllgor Mynwentydd ac Asedau I ystyried y mater ac adrodd nol i'r Cyngor fel sy'n briodol.
Resolved - to refer the matter to the Cemeteries & Assets Committee for consideration and to give guidance to the Council

Cyng. Gerwyn Owen

18-12-20 **Cyflwr Heolydd / Road Conditions**

Yn bryderus iawn am sefyllfa ein heolydd. Angen mwy o ddylanwad gan ein Cynghorwyr Sir. Yn fater iechyd a diogelwch

Sawl lonydd yn y Groeslon angen sylw, Lon Garregfawr, Dolennan, Cyffordd Cae Sarn, Bryn Engan yn ddrwg. Lonydd yn Llandwrog hefyd mewn cyflwr drwg.

Rhoddwyd engreifftiau o waith ar heolydd cymunedau cyfagos sydd wedi cael tarmac newydd megis y lon o Saron ymlaen at Ysgol Felinwnda.

Dyweddodd y Rheolwr fod Cyngor Gwynedd wedi cyflawni gwaith yn y flwyddyn yma ar y lon o Fron i Rhosgadfan ac yn Lôn Buarth.

Penderfynwyd ar y canlynol-

i) Gofyn i Cyngor Gwynedd am gopi o'r Rhestr Waith i adnabod gwaith y bwriedir ei gyflawni yn y gymuned hon
ii) Gofyn i Cynghorwyr Sir (Dilwyn Lloyd ac Eric M Jones) ddwyn pwysau cyson ar Swyddogion Cyngor Gwynedd i gynnal heolydd.

Resolved-

i) To ask Gwynedd council for a copy of the Schedule of Work to identify the work that is earmarkedwithin this Community
ii) To ask the elected County Councillors (Dilwyn Lloyd ac Eric M Jones) to constantly press Gwynedd Council Highways Officers tom,aintain our roads

Cyng. David Davies

18-12-21 **Maes Parcio Fynwent Bryn'rodyn / Bryn'rodyn Cemetery Car Park**

Trafodwyd y maes parcio a trefniadau agor/cau y giat mewn achlysur o gladdedigaethau.

Awgrymwyd gan Cyng. Gerwyn Owen i gadw'r giat ar agor yn barhaol.

Penderfynwyd agor y giat newydd yn barhaol am gyfnod i'w dreialu a monitor y sefyllfa.
Resolved – to open the gates for a trial period and monitor the situation.

Gohebiaeth a Dderbyniwyd / Communication Received

18-12-22 **10 Cylch yr Iaith – Ymateb i Ymgynghoriad Cyngor Gwynedd i Ail-Strwythuro 2- Council to Restructure the Welsh Langauage Centres in Gwynedd**

Trafodwyd y mater fel a nodwyd yn y rhaglen.

Sylwadau aelodau – pawb yn cytuno fod dysgu Cymraeg I hwyrddyfodiadid yn bwysig ac yn cytuno gyda sylwadau Cylch yr Iaith.

Penderfynwyd cefnogi sylwadau y Cylch.

Resolved to support the comments made by the Cylch

18-12-23 **11 Cyngor Gwynedd – Priffyrdd a Bwrdeistrefol / Gwynedd Council Highways & Munucipal**

Ymateb CG i lythyr y Cyngor ynglyn a diffyg trin chwyn ar yr heolydd nol ym mis Medi – Reply to the our letter to CG in September regarding lack of weed management along the highways.

Trafodwyd y mater fel a nodwyd yn y rhaglen.

Adroddwyd fod y Cyngor Sir wedi bod yn ysgubo'r lon gyda peiriant yn ddiweddar ac fod y sefyllfa wedi gwella.

Penderfynwyd derbyn y wybodaeth
Resolved – to accept the information

18-12-24 **12 Grwp Diffibriliwr Y Groeslon / Groeslon Defribilator Group**

Penderfynwyd gohirio y mater a'i gynnwys gyda ceisiadau Rhoddion Yn Chwefror 2019
Resolved – to defer the matter and include with applications for Section 137 grants.

18-12-25 **13 Cyngor Tref Caernarfon – Eisteddfod Genedlaethol 2021 / Caernarfon Town Council – National Eisteddfod 2021**

Trafodwyd y mater fel a nodwyd yn y rhaglen.

Sylwadau Aelodau –

Cynh. Hywel J Owen – yn croesawu yr Eisteddfod i Gaernarfon ond yn cwestiynnu os byddai'r Pwyllgor Eisteddfod yn cynnal Eisteddfod agored fel a wnaed yn Gaerdydd oherwydd y glled ariannol o £400,000.

Penderfynwyd cefnogi y syniad o gynnal yr Eisteddfod yn Caernafon yn 2021.
Resolved – to support the idea of holding the Eisteddfod in Caernarfon in 2021

18-12-26 **14 Gwynedd a Mon – Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd / Gwynedd & Anglesey Joint Planning Policy Unit**

Penderfynwyd derbyn y wybodaeth heb sylwadau
Resolved – to accept the information without any comments

Materion Cynllunio / Planning Matters

18-12-27 **15 Ceisiadau Cynllunio / Planning Applications - Rhagfyr 2018 / December 2018**

Manylion llawn y ceisiadau cynllunio
https://diogel.gwynedd.llyw.cymru/swiftlg/apas/run/wphappcriteria.display?langid=2

Full detais of the Planning Applications
https://diogel.gwynedd.llyw.cymru/swiftlg/apas/run/wphappcriteria.display?langid=1

Penderfyniad y Cyngor – dim gwrthwynebiad
Council Decision – no objection

18-12-28
Cais Rhif / Application Number - **C18/0875/17/LL**
Cyfeiriad / Address - **Dinlle Caravan Park, Dinas Dinlle LL55 5TW**
Bwriad / Proposal - **Cais llawn i resymoli safle pwll nofio presennol trwy ddymchwel adeiladau presennol a chodi adeilad newydd i gynnwys toiledau, campfa, storfa ag ystafell offer a chodi estyniad i gynnwys adnoddau ychwanegol. Full application to rationilse existing swimming pool site by demolishing existing buildings, construction of new buildings, to include new toilets, gym, store and plant room and a new extension to include additional facilities.**

Penderfyniad y Cyngor – dim gwrthwynebiad
Council Decision – no objection

Materion Ariannol / Financial Matters

18-12-29 **16 Derbyniadau Wedi ei Dderbyn Tachwedd 2018 – Income Received November 2018**

Manylion / Details	Cyfanswm
Ffi Claddu / Burial Fees	(£455.00)

Penderfynwyd derbyn y wybodaeth .
Resolved to accept the information

18-12-30 **17 Taliadau sydd angen eu hawdurdodi gan y Cyngor - Payments to be approved**

Manylion / Details	Swm heb TAW Amount	Cyfanswm y Taliad- Total Payment	Rhif Siec/ Cheque Number

	excluding VAT		
Cyflog y Clerc – Rhagfyr 2018 – Clerks Salary December 2018			Uniongyrchol/Direct
HMRC-Treth Incwm Rhagfyr – Income Tax December 2018			Uniongyrchol/Direct
Lwfans Clerc–Rhagfyr - Clerks Allowance December 2018			Uniongyrchol/Direct
Swyddfa Archwilio Cymru – Audit 2017-18 Welsh Office Audit	£353.70	£353.70	101847
Huw Roberts – Cyfieuthu Mis Rhagfyr / Translation December	£54.00	£54.00	101848
Clwb Genod Llan – Adran 137 2017-18 – disodli siec	£100.00	£100.00	101849
Ffrindiau Ysgol Llandwrog – Adran 137 2017-18 – disodli siec	£100.00	£100.00	101850
Ifan E Williams – Cynnal Mynwentydd 2018-19	£6,204.00	£7,444.80	101851
Ifan E Williams – Cynnal Llwybrau 2018-19	£2,275.00	£2,730.00	101852
Ifan E Williams – Cynnal Caeau Pel-droed 2018-19	£2,160.00	£2,592.00	101853
Ifan E Williams – Cytundeb Gwagio Biniau at 31/12/18	£1,100.00	£1,320.00	101854
Ifan E Williams – Gwaith Amrywiol Mynwentydd	£800.00	£960.00	101855
Viking Direct – Offer Swyddfa	£20.43	£24.52	101856
Zurich Munucipal – Yswiriant ychwanegol – amendments to policy	£179.85	£179.85	101857
Viking Direct – Inc i'r Argraffydd	£141.56	£169.87	101858

Penderfynwyd derbyn y wybodaeth a rhoddwyd yr awdurdod i'r Clerc i ryddhau'r oll daliadau.
Resolved to accept the information and to authorise the Clerk to release all the payments

---

18-12-31 **18 Materion i'w Codi gan aelodau i gyfarfod nesaf o'r Cyngor llawn / matters to be raised by Members for the Next Meeting (21 Ionawr 2019 / 21 January 2019)**

Dim materion wedi codi / No matters raised

18-12-32 **19 Dyddiadau Cyfarfod Nesaf / *Dates of Next Meetings***

Cyfarfod / Meeting – **Cyngor Llawn Mis Ionawr / January Full Council**
Dyddiad / Date - Dydd Llun 21 Ionawr 2019 / Monday 21 January 2019
Amser / Time - 7.30 yr hwyr Lleoliad / Venue Neuadd – Canolfan Y Fron

Cyfarfod / Meeting – **Cyngor Arbennig – Ymgysylltu Gyda'r Gymuned / Special Council Meeting - Consulting With The Public**
Dyddiad / Date – i'w gadarnhau / tbc
Amser / Time i'w gadarnhau / tbc
Lleoliad / Venue – i'w gadarnhau / tbc

Cyfarfod / Meeting – **Pwyllgor Cyllid / Finance Committee**
Dyddiad / Date – i'w gadarnhau / tbc
Amser / Time i'w gadarnhau / tbc
Lleoliad / Venue – i'w gadarnhau / tbc

Daeth y cyfarfod i ben am 9.10 yr hwyr / The meeting ended 9:10 pm

Cafwyd y Cofnodion yn rhai cywir – The Minutes were recorded as accurate	
Arwyddwyd gan Gadeirydd y Cyngor **Signed by the Chairmam**	
Dyddiad - Date	